

Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin

Cofnodion y Cyfarfod

Dydd Iau, 14 Gorffennaf 2022

Canolfan Tywi, Llandeilo, 6pm

Yn Bresennol: Aelodau:

Mark Hadley (MH) - Cadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol
Karen Burch (KB) - Dirprwy Gadeirydd
David Stacey (DS)
Richard Leggett (RL)
Paul Barrett (PB)
Sean Brown (SB)
Phil Snaith (PS)
Tara-Jane Sutcliffe (TS)
Peter Griffiths (PG)
Jillie Gardner (JG)

Ysgrifennydd - Caroline Ferguson (CF) – Rheolwr Mynediad i Gefn Gwlad
Cyngor Sir Caerfyrddin

Ymgynghorwyr / Sylwedyddion / Siaradwyr / Y Cyhoedd

Y Cynghorydd Edward Thomas (ET) – Cynghorydd Sir ac Aelod Cabinet dros
Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith
Huw Parsons (HP) – Rheolwr Cynorthwyol Cyfryngau a Marchnata Cyngor Sir
Caerfyrddin **ymuno o bell**
Thomas Henderson-Jones (TJ) – Ymgynghorydd Cynllun Gofodol Cymru **ymuno
o bell**

Ymddiheuriadau: Aelodau:

Dave Gravelle (DG)
Mo Rapley (MR)
Wyn Owen (WO)

Ymgynghorwyr/Sylwedyddion:

Stephen Pilliner – Pennaeth Trafnidiaeth a Phrifyfyrdd CSC
Neil Thomas – Uwch-reolwr Hamdden Awyr Agored CSC
Phil Morgan (PM) Arweinydd Tîm Rheoli Tir CNC
Miriam Jones-Walters (MW) Ymgynghorydd Arbenigol Stiwardiaeth Tir CNC

Nodyn:

Mae CSC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Gyngor Sir Caerfyrddin
Mae CNC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Cyfoeth Naturiol Cymru
Mae HTC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Hawliau Tramwy Cyhoeddus

EITEM	CMAU GWEITHREDU
Eitemau 1 - Croeso ac Ymddiheuriadau Croesawodd MH y fforwm a chyflwynodd y Cynghorydd Edward Thomas fel Aelod Cabinet newydd Rhoddodd MH a CF sylw i rôl y Fforwm Mynediad Lleol a'i ddiben. Mynegodd MH ddiolch i'r fforwm am ganiatáu i ET ei fynychu. Cyflwynodd yr aelodau i gyd eu hunain a'u cefndir er budd ET. Darllenodd CF yr ymddiheuriadau	
Eitem 2 – Cyflwyniad i Ymgynghorydd Cynllun Gofodol Cymru – Adolygu Cynllun Cyflawni'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy <i>Ymunodd Thomas Henderson-Jones â'r cyfarfod o bell trwy Microsoft Teams</i> Cyflwynwyd TJ i aelodau'r fforwm gan CF. Rhoddodd TJ amlinelliad byr o'i gefndir a'i brofiad cyn rhoi sylw i raglen 4 cam, 13 wythnos Cynllun Gofodol Cymru i gyflawni adolygiad Cynllun Cyflawni'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ar ran Cyngor Sir Caerfyrddin. Roedd yr adolygiad gan Gynllun Gofodol Cymru (WSP) ar ei hôl hi am wahanol resymau ond pan fydd y rhaglen gymeradwy wedi'i chymeradwyo bydd yn dechrau yn ffurfiol. KB – A all aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol gael copi o'r rhaglen? CF i ddosbarthu'r rhaglen adolygu ar ôl iddi gael ei chymeradwyo a'i llofnodi. KB – a fydd ymgynghoriad cyhoeddus TJ – dau weithdy Fforwm Mynediad Lleol a chysylltiad rheolaidd â Chyngor Sir Caerfyrddin ond dim ymgysylltu cyhoeddus. JG – Beth yw'r dyddiad dechrau arfaethedig? TJ - Yn syth pan fydd y contract wedi'i lofnodi. PS/JG – A fydd yr adolygiad hwn yn edrych ar bob agwedd ar y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy? CF – Na, adolygiad o'r cynllun cyflawni yn unig yw hwn, fel sy'n ofynnol gan statud. Dewisodd Cyngor Sir Caerfyrddin gynnal yr adolygiad hwn bob 2 flynedd, efallai y	CF

caiff ei newid. Nid yw'n adolygiad o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn ei gyfanrwydd, cynhelir hynny bob 10 mlynedd.

Gadawodd TJ y cyfarfod

(ychwanegwyd) Eitem 2a – Hyrwyddo/Marchnata Llwybrau a Hyrwyddir yn Sir Gaerfyrddin

Ymunodd Huw Parsons â'r cyfarfod o bell trwy Teams.

Croesawodd AT Huw i'r cyfarfod.

RL - darllenodd e-bost yr oedd wedi'i anfon ar 7 Mehefin yn amlinellu ei sylwadau a'i bryderon ynghylch hyrwyddo a marchnata Teithiau Cerdded Sirol Cyngor Sir Caerfyrddin a llwybrau a hyrwyddir ar-lein.

HP – Cyflwynodd ei hun a'i rôl yn y tîm Marchnata a'r Cyfryngau – gan gynorthwyo'r swyddogaeth dwristiaeth fel rhan o adferiad economaidd y Sir.

Yna amlinellwyd y bartneriaeth waith gyda Mynediad i Gefn Gwlad trwy Martin Murray (cyn Swyddog Datblygu Hawliau Tramwy Cyhoeddus CSC), gan weithio i hyrwyddo llwybrau cerdded a llwybrau dethol ar wefan Darganfod Sir Gâr gyda phobl enwog yn cael eu gwahodd i hyrwyddo rhai teithiau cerdded. Mae 'Taith Gerdded yr Wythnos' wedi cael ei hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol hefyd.

RL – Nid yw hyrwyddo digwyddiadau ar wefan gystal â mewn taflen fel y gwaned yn y gorffennol.

HP – ni chaniateir taflenni fel ffeiliau PDF y gellir eu llwytho ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin mwyach oherwydd diffyg hygyrchedd i bobl â golwg rhannol. Yn unol â rheoleiddio cenedlaethol, gallai Awdurdod Lleol gael ei erlyn am ddefnyddio PDFs, roedd yn rhaid newid fformat. Mae'r dulliau presennol a nodwyd yn hyrwyddo i gynulleidfa darged.

MH – Fel gweithredwr twristiaeth, roedd heb glywed am yr hyrwyddiad ar y cyfryngau cymdeithasol a grybwyllwyd, a hefyd roedd yn anymwybodol o'r rheolau PDF.

HP – Mae angen i weithredwyr twristiaeth gofrestru ar gyfer llythyr newyddion Twristiaeth

RL – mae'r Fforwm Mynediad Lleol yn ymwneud â hyrwyddo Mynediad, os nad gwaith Cyngor Sir Caerfyrddin yw hyrwyddo cyfleoedd mynediad cyhoeddus, gwaith pwy ydyw? Mae hyrwyddo presennol yn gam yn ôl o'r hen daflenni. Mae gwelliannau digidol yn iawn ond mae wedi arafu, dim cynnydd diweddar.

PS – Cyfle i hyrwyddo 40 milltir o'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol (NCN) fel mynediad i bob gallu.

Camau i'w cymryd - cynrychiolwyr y Fforwm Mynediad Lleol i gwrdd â'r Cynghorwyr Edward Thomas a Gareth John i drafod sefydlu gweithdy i drafod cyhoeddusrwydd llwybrau a hyrwyddir

MH

MH – mae angen nodyn cyngor gan y Fforwm Mynediad Lleol ynghylch marchnata llwybrau a hyrwyddir a chyfleoedd mynediad. Nodyn i gynghori cyfarfod â gwasanaethau perthnasol, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru o bosibl, i drafod y mater a nodi'r opsiynau marchnata gorau posibl y gellir eu darparu.

HP – Hapus i gymryd rhan.

Gadawodd HP y cyfarfod.

Eitem 3 – CAMSWeb

CF - Methwyd y dyddiad lansio arfaethedig ar 1 Mehefin. Mae gwendidau cefn swyddfa wedi arafu'r broses, gan weithio drwy hyn gyda darparwyr meddalwedd. Os na fydd unrhyw faterion pellach yn codi yna gall y system fynd yn fyw erbyn yr Hydref.

RL – Sut bydd llwybrau Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cael eu trin, roedd oedi sylweddol cyn cael gwybod am fater a adroddwyd yn y Parc Cenedlaethol.

CF Mae ymateb awtomatig wedi'i ychwanegu i ddelio â hyn gan ddarparu gwybodaeth gyswllt ar gyfer Tîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog Mae nodweddion eraill hefyd wedi'u hychwanegu i sicrhau bod y system mor hygyrch ac addysgiadol â phosibl 1.Gwybodaeth Hierarchaeth Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus 2.Cau Dros Dro 3. Gwella llwybrau trwy brosiectau. Edrychwn ymlaen at lansio cyn hir.

CF

Eitem 4 – Adroddiadau ar Faterion

RL – esboniodd y cefndir i ddata'r adroddiad materion a hanes materion heb eu datrys ar y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus i ET. Yna amlinellwyd canfyddiadau allweddol y chwarter i'r grŵp.

MH – Dylid ychwanegu ET at restr aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol i sicrhau ei fod yn derbyn adroddiadau cyhoeddi.

CF – eglurodd sut y gall prosiectau greu mwy o faterion (wedi'u hunan-greu) oherwydd bod angen cynnal arolygon llawn a manwl o'r holl Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn ardal y prosiect wrth baratoi'r prosiect. Yn y pen draw bydd cwblhau'r prosiect yn datrys materion yr adroddir amdanynt a materion a gynhyrchir gan yr unigolyn ei hun, sydd o fudd cyffredinol i'r rhwydwaith.

Hefyd, mae'r gostyngiad mewn materion Cynnal a Chadw ochr yn ochr â'r cynnydd mewn materion Cyfreithiol wedi codi ers ailddyrrannu rhai mathau o faterion i'r tîm Cyfreithiol a oedd wedi'u haseinio'n flaenorol i Gynnal a Chadw.

KB – A ellir defnyddio grantiau i gynorthwyo gyda chynnal a chadw?

CF – Na, ni ellir defnyddio arian grant i gyflawni dyletswyddau statudol.

CF

SB – A ellid cael adroddiad perfformiad? Byddai adroddiad ar nifer y materion a ddatryswyd yn edrych yn fwy cadarnhaol. CF – bydd yn ymchwilio i gynnal y math hwn o adroddiad gan CAMS. PS – Gyda'r cynnydd mewn materion Cyfreithiol, gallai fod yn fuddiol cael gwell cynrychiolaeth o dirfeddianwyr ar y Fforwm Mynediad Lleol. MH – A allwn ni wneud ymgyrch farchnata i dirfeddianwyr? Hefyd, cynrychiolaeth anabled? CF – Bydd cynrychiolaeth anabled yn fwy o bosibiliad os yw'r dechnoleg ar gyfer cyfarfodydd hybrid 'go iawn' ar gael. Mae'n werth siarad â'r Sefydliad Ffermio (FUW/NFU) o ran cynrychiolaeth tirfeddianwyr.	
Eitem 5 - Cynigion Prosiectau Mynediad i Gefn Gwlad 2022-23 Rhoddodd CF wybodaeth am gynigion prosiect yn amlinellu prosiectau arfaethedig ar gyfer 2022-23 a ariennir gan arian grant a refeniw. Mae'r defnydd o arian Grant Gwella Mynediad ar gyfer pontydd Hawliau Tramwy Cyhoeddus wedi bod yn hwb i'w groesawu i'r gyllideb pontydd dros y 3 blynedd nesaf. MH – llongyfarchodd Cyngor Sir Caerfyrddin am sicrhau grant Grant Buddsoddi'r Cynulliad. SB/MH – gall cyllid GLASS neu TRF fod ar gael i gynorthwyo gyda phrosiect Cilffyrdd Cydweli. Hefyd mae gan SB wybodaeth defnyddwyr dda o'r Cilffyrdd dan sylw. CF – Bydd Swyddog ardal newydd, Kirsten yn cysylltu â grwpiau defnyddwyr pan fydd llwybrau dethol wedi cael eu hailarolygu. MH – awgrymodd nodyn cyngor gan y Fforwm Mynediad Lleol i gefnogi'r defnydd o gyllid allanol ar gyfer gwelliannau i'r pontydd ac yn amlygu problem ariannu yn y maes hwn o reoli hawliau tramwy cyhoeddus, angen mwy o wariant arno. Cytunodd pawb ei fod yn broblem fawr a dylid ei gynnwys yn y nodyn cyngor. CF - Mae ADEPT wedi cwblhau arolwg o awdurdodau lleol ar faterion rheoli pontydd Hawliau Tramwy Cyhoeddus, CF i ddosbarthu'r arolwg os caniateir. PS – A ellir ceisio cyllid ar gyfer Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn rhywle arall? Cronfa Cymunedau Gwydn, Cronfa Ffyniant Bro CF – byddai angen gwirio cymhwysedd, efallai gwahodd siaradwr i Fforwm Mynediad Lleol os yw Hawliau Tramwy Cyhoeddus neu agweddau eraill ar fynediad cyhoeddus yn gymwys.	

MH

CF

CF

Eitem 6 – Llwybr Aml-ddefnydd, Gogledd Sir Gaerfyrddin

Darparodd CF fap o'r llwybr aml-ddefnydd y mae Cyngor Sir Gaerfyrddin yn gweithio tuag ato. Mae bron pob adran wedi bod yn destun rhai gwelliannau trwy brosiectau blynyddol a/neu weithio mewn partneriaeth. Roedd gwaith ar y gweill o hyd ond byddai rhywbeth i'w hyrwyddo pan fydd wedi'i ddatblygu'n llawn.

MH – Gofynnwyd i mi ddiolch am welliannau prosiect y llynedd yn ardal Cyngorddy – yn gysylltiedig â'r amcan i gael llwybr aml-ddefnydd.

KB – Dylid cynnwys Cilffordd Sunnybank yn y Llwybr, a oedd yn llwybr cysylltu gwerthfawr.

CF – mae gwaith yn mynd rhagddo ar y cynllun, gellir ystyried llwybrau ychwanegol os gellir gwneud gwelliannau.

Eitem 7 – Diweddariad ynghylch Cynllun Creu Coetir Brownhill.

Nid oedd cynrychiolydd o Gyfoeth Naturiol Cymru yn bresennol

MH – fe wnaeth amlinellu newidiadau i gynllun y safle, , mynediad cyhoeddus i'w gyfyngu i 40 erw o gyfanswm arwynebedd y safle. A yw hyn yn ddigon i ddenu marchogion neu a fydd seilwaith marchogaeth yn wastraff adnoddau?

KB - dylai coedwig goffau sicrhau bod cynifer o'r cyhoedd â phosibl yn ei ddefnyddio. Yn absenoldeb cyfleoedd mynediad eraill i farchogion, mae mynediad ar draws 40 erw yn debygol o fod yn dderbyniol.

PS– mae mynediad i'r safle o Gefnffordd brysur iawn

MH – bydd mynediad o'r gilfan, nid yn uniongyrchol o ffordd gerbydau y Gefnffordd. Mae'r Fforwm Mynediad Lleol wedi cael gwahoddiad i ymweliad â'r safle ar ryw adeg.

Eitem 8 – Polisi Codi Tâl Celfi HTC

RL – wedi dangos y Polisi i grwpiau Cerddwyr cyfagos mewn ardaloedd Awdurdod cyfagos. Adborth cadarnhaol iawn, anfonwyd e-bost at y tîm HTC gydag ymholiadau/argymhellion i sicrhau bod y Polisi'n gliriach. Cerddwyr yn ceisio bod yn gymwynasgar a gwella'r ddogfen.

CF – Rhoddwyd ystyriaeth i bob pwynt cyn y cyfarfod. Bydd dyddiad cymeradwyo, adolygiad wedi'i amserlennu o'r Polisi (5 mlynedd a awgrymir), dyddiad effeithiol ar gyfer y Rhestr Brisiau ac eglurhad o'r costau fesul eitem i dirfeddianwyr (e.e. costau llafur a deunyddiau) yn cael eu cynnwys yn y Polisi cyn gynted â phosibl.

CF

Eitem 9 – Camau Gweithredu'n Codi o Gofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Cynnal a Chadw Cilffyrdd/Ffyrdd Diddosbarth

MH - Ymateb i Nodyn Cyngor - adolygiad o'r GRhT dros dro ddim yn bosibl, blaenoriaeth isel, bydd gweithredu rheolau 20mya yn defnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael.

SB – yn anhapus â'r ymateb, mae llwybrau'n bwysig ar gyfer hamdden

CF – Mae Mynediad Cefn Gwlad yn cael £16k gan yr Adran Briffyrdd i gynnal/gwella Cilffyrdd a Ffyrdd Diddosbarth a ystyrir yn bwysig ar gyfer hamdden. Gwybodaeth gan aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol yn ddefnyddiol ar gyfer hyn.

MH – Yn y pen draw cyfrifoldeb Priffyrdd yw'r llwybrau, , yn amodol ar Hierarchaeth Rhwydwaith Priffyrdd. Mae angen mynd ymhellach, ceisio cael ymrwymiad i adolygu GRhT dros dro ar ôl i'r cynllun 20mya ddod i ben.

PS – bydd newid terfyn cyflymder yn cymryd llawer o amser ac adnoddau.

MH/AW

Dangosyddion Perfformiad

RL – ar ôl sicrhau arolygon DP bob 2 flynedd, methwyd 2019-20 ac ni chynhaliwyd unrhyw DP o hyd. Ddim yn digon da.

CF – Gydag arolwg rhwydwaith 100% wedi'i gynllunio ers canol 2020, mae cynnal arolwg DP yn samplu 5% o'r rhwydwaith yn y cyfamser yn cael ei ystyried yn ddefnydd gwael o adnoddau.

KB - pa mor hir fydd yr arolwg 100% yn ei gymryd?

CF

CF – methu ateb ar hyn o bryd, yn dibynnu ar nifer o ffactorau megis nifer y gwirfoddolwyr, amser o'r flwyddyn, tywydd, cyflwr y rhwydwaith. Pan fydd yr arolygon wedi dechrau a'r canlyniadau'n dechrau dychwelyd, dylem gael syniad o ba mor hir y bydd y rhwydwaith cyfan yn ei gymryd.

MH – faint o wirfoddolwyr sydd gan Gyngor Sir Caerfyrddin

CF – Lluniodd Alan Warner (AW), Rheolwr Hamdden a Mynediad, restr o 30+ o wirfoddolwyr yn 2021 ond o ystyried yr amser sydd wedi mynd heibio bydd angen ei diweddarau pan fyddwn yn barod i sefydlu hyfforddiant gwirfoddolwyr a dyrannu ardaloedd arolwg.

RL – A wahoddwyd y Fforwm Mynediad Lleol i wirfoddoli? Pwy yw'r gwirfoddolwyr?

MH – byddai'n gofyn i AW ddarparu mwy o fanylion/briff prosiect ar recriwtio gwirfoddolwyr ar gyfer y cyfarfod nesaf? Efallai ei wahodd i siarad am yr arolwg yng nghyfarfod nesaf y Fforwm Mynediad Lleol.

Map o Dir Comin

KB – A yw map Tir Comin digidol wedi'i anfon eto.

CF – Na, mae'r cais wedi'i ail-anfon. Gan mai copi gwaith yn unig yw'r cofnod digidol, nid oes unrhyw rwymedigaeth i'w ddarparu, efallai nad yw'n cael ei ystyried yn briodol.

MH - angen eglurhad oherwydd awgrymwyd y gellid ei ddarparu i aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol.

Eitem 10 – Unrhyw Fater Arall

MH – Roedd yn mynd i ddigwyddiad y Cerddwyr yn y Metropole, Llandrindod, croeso i un cynrychiolydd arall o'r Fforwm Mynediad Lleol i fynychu. 19 Gorffennaf 2022. Trafodaeth a dathliad o rwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus Cymru.

-

PS – Mae angen datrys y mater parhaus o ganiatáu beicio ar lwybrau troed. Ar hyn o bryd ni chaniateir defnydd pellach o lwybrau troed ar gyfer Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol. Safiad rhyfedd gan yr Awdurdod Lleol, y mae Sustrans yn dadlau yn ei gylch. Yn Lloegr, mae modd caniatáu beicio ar lwybrau troed. Mae Sir Gaerfyrddin wedi datblygu llawer o lwybrau beicio ar hyd llwybrau troed.

CF – roedd yn deall bod angen egluro'r sefyllfa gyfreithiol gan fod atebolrwydd am ddamwain neu ddigwyddiad rhwng defnyddwyr caniatol a defnyddwyr HTC yn aneglur. Awgrymwyd Gorchmynion Addasu Llwybr Beicio (CTC) fel ateb. Yn cael ei wrthwynebu gan aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol gan fod llwybrau sy'n destun Gorchmynion CTC yn cael eu tynnu oddi ar y Map a'r Datganiad Diffiniol.

MH – Beth all y Fforwm Mynediad Lleol ei wneud? A allwn ofyn i ET/tîm Strategaeth Trafnidiaeth (Samara) roi cyngor?

RL – Gofyn i Samara sut y gellir datrys y mater?

CF – Nid yw Samara na'r Cynghorydd Thomas yn weithwyr cyfreithiol proffesiynol; mae hyn yn gofyn am arweiniad gan y Gwasanaethau Cyfreithiol.

-

RL – A all y grŵp ailymweld â Hierarchaeth Rhwydwaith HTC, ychwanegu rhagor o fanylion at categorïau?

CF – Eitem agenda yn y dyfodol

-

MH – Mae Strava yn creu problem ddiogelwch ar y rhwydwaith ffyrdd. Mae heriau cyflymder ar rai rhannau serth o'r ffyrdd, yn enwedig ffyrdd trac sengl, yn ddamwain sy'n aros i ddigwydd.

PS – problem genedlaethol, nid yw Strava yn cael ei reoleiddio, nid oes gan Awdurdodau Lleol unrhyw reolaeth dros y mater.

-

JG – Mae grant Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ei ddyfarnu i Grŵp Clwstwr Brechfa a Llanllwni. Bydd rhan o'r arian yn cael ei wario ar daflen gerdded newydd ar gyfer safle Gardd Goedwig Brechfa.

Daeth y cyfarfod i ben

Y Cyfarfod Nesaf - 13 Hydref 2022, lleoliad i'w gadarnhau